

## ADRODDIAD ADOLYGU ARFER AR GYFER OEDOLION

### Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg Adolygiad Arfer Oedolion Estynedig

Parthed: CTMSB1 / 2019

### Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr Adolygiad

Mae Adolygiad Arfer Oedolion estynedig wedi'i gynnal yn unol â chanllawiau "Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 3", Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r canllawiau'n nodi y bydd adolygiad estynedig yn cael ei gomisiynu gan y Bwrdd Diogelu mewn achos lle mae oedolyn sy'n wynebu risg sydd, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad yr achlysur, wedi bod yn destun penderfyniad gan yr Awdurdod Lleol i gymryd camau i'w ddiogelu rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn dilyn ymholiad gan Awdurdod Lleol, ac sydd:

- Wedi marw; neu
- Wedi cael anaf y byddai modd iddo beryglu ei fywyd; neu
- Wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd

Oherwydd natur yr achlysur, cafodd ei gytuno yng nghyfarfod Grŵp Adolygu Arfer Oedolion Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg bod y meini prawf wedi eu bodloni ar gyfer cynnal yr adolygiad estynedig. Mae amgylchiadau'r achos fel a ganlyn.

Cafodd Oedolyn F ei disgrifio fel dynes falch ac urddasol. Roedd hi'n gyn-athrawes ysgol gynradd ac roedd yn mwynhau ei swydd. Cymraeg oedd ei hiaith gyntaf ac roedd hi'n ddynes annibynnol a oedd yn byw ar ei phen ei hun. Roedd Oedolyn F yn unig blentyn. Bu farw ei thad pan oedd hi'n ifanc. Roedd Oedolyn F yn gofalu'n ddiwyd ar ôl ei mam hyd nes y bu hi farw yn 86 mlwydd oed. Doedd Oedolyn F erioed wedi priodi a doedd dim plant gyda hi. Yn ei blynyddoedd olaf roedd ei chymdogion yn gofalu amdani ac yn ei chefnogi. Yn dilyn cyfnod o asesu a thriniaeth gartref, cafodd Oedolyn F ei derbyn i'r ysbyty â nam gwybyddol ym mis Medi 2017.

Cafodd Oedolyn G ei ddisgrifio fel dyn siaradus iawn a gafodd ei addysg mewn Ysgol Ramadeg. Treuliodd gyfnod yn y Lluoedd Arfog. Yn dilyn hyn, roedd yn berchen ar ei fusnes ei hun a chafodd ei ddisgrifio'n ddyn yr oedd gan lawer yn ei gymuned leol feddwl mawr

ohono, a byddai'n aml yn helpu ei gymdogion. Mae gydag Oedolyn G dri phlentyn er eu bod wedi ymbellhau oddi wrth ei gilydd. Mae gyda fe ddiagnosis o ddementia cymysg a chafodd ei dderbyn i'r ysbyty o gartref gofal o dan Adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ym mis Gorffennaf 2017.

Daeth Oedolyn F ac Oedolyn G yn gyfarwydd â'i gilydd pan roedden nhw mewn lleoliad Iechyd Meddwl Acíwt i Bobl Hŷn. Wedi hynny, daeth y ddau yn gleifion mewnol ar y ward Asesu Dementia Arbenigol. Tra roedden nhw yno, roedd Oedolyn G wedi mynd â bryd Oedolyn F gan ei bod hi'n meddwl ei fod e'n gymydog iddi.

Ar 12 Mehefin 2018, cafodd Oedolyn F ei tharo ar ei thrwyn gan gyd-glaf (Oedolyn G). Roedd y ddau yn gleifion mewnol ar ward Asesu Dementia Arbenigol. Yn dilyn yr ymosodiad, cafodd Oedolyn F ei derbyn i'r ysbyty gyda gwaedu ar yr ymennydd. Roedd y prognosis cychwynnol yn wael ac roedd pryderon na fyddai Oedolyn F yn goroesi'r ymosodiad. Roedd Oedolyn F wedi gwella ar ôl yr ymosodiad ond yn anffodus bu farw o achosion naturiol rai misoedd yn ddiweddarach mewn cartref gofal.

Yn 2017, cyn i Oedolyn G gael ei dderbyn i'r ysbyty roedd yn byw mewn cartref gofal. Pan roedd yn y cartref gofal, cafodd sawl digwyddiad treisgar eu cofnodi a'u hadrodd i'r Garfan Diogelu Oedolion. Yn sgil un o'r digwyddiadau yma, cafodd ei gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Y tro yma, cafodd y dioddefwr anafiadau a newidiodd ei fywyd a bu farw'n ddiweddarach mewn cartref gofal. Arweiniodd hyn at ymchwiliad gan yr heddlu a ddaeth i'r casgliad nad oedd cysylltiad achosol uniongyrchol rhwng yr ymosodiad a marwolaeth y dioddefwr. O ganlyniad i hyn, ni chafodd Oedolyn G ei erlyn am unrhyw drosedd. Serch hynny, cafodd adolygiad Arfer Oedolion ei gomisiynu hefyd yn dilyn y digwyddiad yma.

## **Dysgu mewn perthynas ag arfer a dysgu sefydliadol**

Cafodd achlysur dysgu i ymarferwyr ei gynnal ar 7 Tachwedd 2019. Ei nod oedd dod â'r gweithwyr proffesiynol hynny a oedd yn ymwneud â'r achos ynghyd i adolygu eu harfer. Cafodd llinell amser ei rhannu ag ymarferwyr o achlysuron arwyddocaol mewn perthynas â'r ddau unigolyn. Cafodd yr ymarferwyr gyfle i nodi meysydd arfer effeithiol a meysydd i'w gwella. Trwy gydol yr achlysur dysgu, cafodd y themâu canlynol eu nodi:

- 1: Defnyddio deddfwriaeth briodol ar gyfer oedolion sydd angen gofal a thriniaeth
- 2: Y llwybr i gleifion rhwng wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn
- 3: Adrodd a chofnodi digwyddiadau diogelu
- 4: Rôl y Garfan Aml-ddisgyblaeth

## **Thema Un:**

### **Defnyddio deddfwriaeth yn briodol ar gyfer oedolion sydd angen gofal a thriniaeth**

O ran Oedolyn F, roedd ei derbyn i'r ysbyty trwy gynnal asesiad y Ddeddf lechyd Meddwl ym mis Medi 2017 yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn hwyluso cyfnod asesu. Roedd wedi ymgartrefu'n gyflym a chafodd ei rhyddhau o'r Ddeddf lechyd Meddwl a'i rhoi ar Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS). Roedd yr adolygwyr wedi nodi mai dyma oedd y dewis priodol â'r lleiaf o gyfyngiadau iddi hi ar y pryd. Yn dilyn hyn, cafodd cyfarfod budd gorau ei gynnal ym mis Ionawr 2018. Yr argymhelliad oedd rhoi Oedolyn F mewn lleoliad cartref nyrsio i gefnogi'i rhyddhau'n ddiogel. Gan fod Oedolyn F wedi mynegi dymuniad yn gyson i ddychwelyd adref, roedd angen cyflwyno cais i'r Llys Gwarchod. Ar nodyn cadarnhaol, er gwaethaf ei diffyg gallu, cafodd barn Oedolyn F ei cheisio ac roedd wedi cael gwybod am y posibiladau mewn perthynas â'i llwybr gofal yn y dyfodol drwy gydol y broses. Gan nodi mai Cymraeg oedd iaith gyntaf Oedolyn F, cafodd ei nodi bod staff lechyd a Gofal Cymdeithasol yn gwneud pob ymdrech i asesu ei gallu trwy'r cyfrwng yma a thrwy'r Saesneg. Roedd atgyfeiriad y Llys Gwarchod yn briodol. Serch hynny, bu oedi sylweddol wrth drefnu ei rhyddhau oherwydd cyngor cyfreithiol anghywir a ddaeth i law oddi wrth yr Awdurdod Lleol. Mae'r adolygwyr yn effro i'r ffaith bod gwersi eisoes wedi'u dysgu a bod camau gweithredu priodol wedi'u cymryd i atal hyn rhag digwydd eto.

O ran Oedolyn G, roedd ei dderbyn i'r ysbyty trwy gynnal asesiad y Ddeddf lechyd Meddwl ym mis Gorffennaf 2017 yn angenrheidiol ac yn gymesur i'w anghenion a'r risgiau ar y pryd. Cafodd ei ryddhau'n ddiweddarach o orchymyn Adran 2 o'r Ddeddf lechyd Meddwl ym mis Awst 2017 o blaid DoLS, ond cafodd ei gadw o dan Adran 3 o'r Ddeddf ddechrau mis Medi 2017. Ar yr adeg yma, roedd Oedolyn G yn parhau i arddangos ymddygiad heriol gan gynnwys diffyg cydymffurfio â gofal ac ymddygiad ymosodol. Felly, dydy hi ddim yn eglur i'r adolygwyr pam na chafodd ei gadw'n barhaus o dan y Ddeddf lechyd Meddwl yn ystod y cyfnod yma. Mae'r patrwm yma o'i gadw a'i ryddhau o dan y Ddeddf lechyd Meddwl yn cael ei ailadrodd eto ym mis Mawrth 2018. Yn dilyn ymosodiad ar nyrs, cafodd Oedolyn G ei ryddhau eto o'r Ddeddf lechyd Meddwl o blaid DoLS, ond cafodd ei gadw eto'n ddiweddarach ym mis Mawrth 2018.

Er gwaethaf cadw Oedolyn G o dan y Ddeddf lechyd Meddwl yn ystod ei dderbyn i'r ysbyty, does dim cofnod o'i atgyfeirio at y Gwasanaeth Eirioli tan ar ôl y digwyddiad gydag Oedolyn F ym mis Mehefin 2018.

### **Pwyntiau dysgu:**

Rhaid i benderfyniadau sy'n ymwneud â defnyddio deddfwriaeth yn briodol fod yn seiliedig ar gyflwr yr unigolyn ar y pryd a'r cyfnod hyd at y penderfyniad. Mae'n arfer da ymgynghori â'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol sy'n ymwneud â gofal a thriniaeth y claf cyn dod i benderfyniadau o'r fath.

Gwell dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau a'r broses sy'n cefnogi atgyfeiriadau i'r Llys Gwarchod.

Pan gaiff cleifion asesiad o ddiffyg gallu ac yn cael eu derbyn i'r ysbyty, dylai staff y ward eu hatgyfeirio'n amserol at Wasanaethau Eirioli.

## Thema Dau:

### Y llwybr i gleifion rhwng wardiau lechyd Meddwl i Bobl Hŷn

Cafodd Oedolyn G ei dderbyn i'r Ward Asesu Acíwt i Bobl Hŷn yn wreiddiol. Arhosodd yn glaf mewnol yno rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2017. Pan roedd e yno roedd yn aml yn ymddwyn mewn ffordd ymosodol tuag at gleifion eraill a'r staff weithiau. Roedd angen cynnal ymyriadau meddygol ac ymyriadau nyrsio. Roedd Oedolyn G yn destun mesurau arsylwi ysbeidiol a pharhaus ac yn derbyn meddyginiaethau ychwanegol rheolaidd i reoli ei dymer pan oedd yn gofidio a chynhyrfu. Cafodd Oedolyn G ei gadw eto o dan Adran 3 o'r Ddeddf Lechyd Meddwl ar 5 Medi 2017 cyn ei drosglwyddo i Ward Asesu Dementia Arbenigol ar 20 Medi 2017.

Parhaodd Oedolyn G i fod yn ymosodol tuag at eraill ar ddiwrnod ei drosglwyddo ac ar brydiau yn ystod y dyddiau canlynol. Cafodd cyfarfod adolygu Ôl-ofal Adran 117 ei gynnal ar 25 Medi 2017. Cafodd ei drosglwyddo yn ôl i'r Ward Asesu Acíwt ei ystyried ond ni ddigwyddodd hyn. Yn lle, cafodd staff ychwanegol eu darparu i gefnogi Oedolyn G yn yr un amgylchedd, gan gynyddu a gwella amllder yr arsylwi. Er gwaethaf yr arsylwadau yma, parhaodd ymddygiad Oedolyn G i waethygu drwy ymddygiad ymosodol a rhywiol amhriodol pellach. Yn sgil ymweliad â'r ward gan staff perthnasol ar 6 Tachwedd 2017, cafodd Oedolyn G ei osod ar y lefel arsylwi uchaf (o fewn hyd braich aelod staff penodedig), yn ogystal â chael presgripsiwn o bigiadau yn y cyhyrau i reoli ei ymddygiad heriol.

Yn sgil cyfarfod adolygu Cynllun Gofal a Thriniaeth (CTP) ar 11 Rhagfyr 2017, roedd gofyn bod Oedolyn G yn mynd i Leoliad Arbenigol ar ôl ei ryddhau. Ar ôl asesu'r amseroedd risg uchel, cafodd lefelau arsylwi eu lleihau i'r prynhawn a'r nosweithiau yn unig. Er gwaethaf digwyddiadau parhaus o ymddygiad ymosodol a chynhyrfu, gan gynnwys ymosodiadau ar gleifion a'r staff a oedd yn golygu bod rhaid cynnal ymyriadau corfforol, arhosodd Oedolyn G ar y Ward Asesu Dementia Arbenigol hyd nes y digwyddiad gydag Oedolyn F ar 13 Mehefin 2018.

Yn ystod yr achlysur dysgu, roedd staff yn cydnabod ymdrechion parhaus staff y ward i reoli ymddygiad heriol a risg gynyddol. Roedd staff meddygol a nyrsio yn cynnal ymweliadau wythnosol â wardiau. Cafodd gofal iechyd corfforol y ddau unigolyn ei adolygu a'i drin mewn modd amserol, gydag ymyriadau gan ymarferwyr mwy arbenigol yn ôl yr angen. Cafodd proses llunio risg cynhwysfawr ei chynnal ar y cyd â'r Gwasanaeth Seicoleg i ddeall ymddygiadau heriol Oedolyn G a'r dull rheoli â'r lleiaf o gyfyngiadau. Serch hynny, cafodd priodoldeb a phrydlondeb llwybr gofal Oedolyn G eu trafod yn fanwl. Er gwaethaf ei ymddygiad heriol cychwynnol ar y Ward Asesu Acíwt, cafodd ei nodi mai'r rhesymeg dros drosglwyddo Oedolyn G i Ward Asesu Dementia Arbenigol oedd er mwyn darparu amgylchedd tawelach a fyddai'n ei gynhyrfu llai. Serch hynny, er gwaethaf hyn, roedd ymddygiad Oedolyn G yn parhau i fod yn heriol. Cafodd risgiau difrifol i gleifion a'r staff eu cofnodi, ac eto roedd yn ymddangos nad oedd ei drosglwyddo yn ôl i'r Ward Asesu Acíwt wedi'i ystyried. Er bod y gwaith cynllunio i'w ryddhau wedi nodi'r angen am 'Leoliad Arbenigol' wrth ei ryddhau, doedd y nodiadau ddim yn glir ynghylch pa fath o leoliad oedd ei angen, (Cartref Nyrsio neu Ysbyty). Dim ond yn y cofnodion yn dilyn y digwyddiad difrifol

yn ymwneud ag Oedolyn F y caiff yr ystyriaeth i drosglwyddo Oedolyn G i amgylchedd gofal lechyd Meddwl mwy dwys ei chynnwys.

Mae tystiolaeth yng nghofnodion yr achos yn dangos bod gwaith cynllunio i ryddhau Oedolyn G wedi dechrau mor gynnar â mis Hydref 2017. Cafodd adolygiadau CTP eu cynnal ym mis Medi a mis Rhagfyr 2017. Roedd cyfeiriadau at geisiadau am Aseidiadau Nyrsio a chymhwysedd Gofal lechyd Parhaus ym mis Tachwedd 2017 ac eto ym mis Chwefror a mis Mawrth 2018. Mae'n debygol bod y newidiadau i ofal a thriniaeth Oedolyn G o ddydd i ddydd wedi gohirio cwblhau'r rhain. Serch hynny, roedd cyfleoedd wedi'u colli i gynnal adolygiad amlddisgyblaeth o'i leoliad ar y pryd a'r dewisiadau amgen posibl o ystyried ymddygiad heriol parhaus Oedolyn G.

### **Pwyntiau dysgu:**

Dylai priodoldeb amgylchedd gofal claf gael ei gynnwys yn rhan o'r adolygiad amlddisgyblaeth o ofal yn fater o drefn. Dylid amlygu cyfleoedd o'r fath lle mae pryderon ynghylch gofal a thriniaeth unigolyn.

Mae angen sefydlu llwybrau i gefnogi mynediad amserol at amgylcheddau gofal priodol. Mae hyn yn berthnasol i ddarpariaeth y GIG a Lleoliadau Arbenigol Annibynnol lle bo angen.

### **Thema Tri:**

### **Adrodd a chofnodi digwyddiadau diogelu**

Daeth yn amlwg i'r adolygwyr fod anghysondeb wrth adrodd digwyddiadau i'r Bwrdd lechyd yn fewnol ac yn allanol i'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth. Pe bai hyn wedi'i gwblhau, byddai mwy o gyfleoedd wedi bod i'r Bwrdd lechyd eu hadolygu'n fewnol a/neu i'r Garfan Diogelu Oedolion eu hadolygu'n allanol.

Mae crynodeb o'r digwyddiadau sy'n ymwneud ag Oedolyn G fel a ganlyn:

31 Awst 2017: Oedolyn G yn cael ei weld yn cicio a dyrnu claf arall a gwmpodd i'r llawr. Cwblhau adroddiad ar system DATIX y Bwrdd lechyd ond dim atgyfeiriad at y Garfan Diogelu Oedolion wedi'i gwblhau.

20 Medi 2017: Honiad bod Oedolyn G wedi dyrnu claf arall yn ei wyneb. Cwblhau adroddiad ar system DATIX y Bwrdd lechyd ond dim atgyfeiriad at y Garfan Diogelu Oedolion wedi'i gwblhau.

27 Medi 2017: Cofnodi digwyddiad o ymddygiad rhywiol amhriodol rhwng Oedolyn G a chlaf arall ar y ward. Cwblhau adroddiad ar system DATIX y Bwrdd lechyd ond dim atgyfeiriad at y Garfan Diogelu Oedolion wedi'i gwblhau.

2 Hydref 2017: Oedolyn G yn bwrw claf arall gan achosi iddo gwmpo i'r llawr. Dim adroddiad ar system DATIX y Bwrdd lechyd nac atgyfeiriad at y Garfan Diogelu Oedolion wedi'u cwblhau.

8 Ionawr 2018: Oedolyn G yn cael ei weld yn dyrnu claf arall gan beri iddo golli balans. Roedd rhaid i'r staff ymyrryd. Doedd dim tystiolaeth bod hyn wedi'i gofnodi ar system adrodd DATIX y Bwrdd Iechyd. Doedd dim cofnod bod hyn wedi'i atgyfeirio at y Garfan Diogelu Oedolion chwaith.

5 Chwefror 2018: Oedolyn G yn cael ei weld yn slapio claf arall. Doedd dim tystiolaeth bod hyn wedi'i gofnodi ar system adrodd DATIX y Bwrdd Iechyd. Doedd dim cofnod bod hyn wedi'i atgyfeirio at y Garfan Diogelu Oedolion chwaith.

19 Mai 2018: Roedd rhaid ymyrryd yn gorfforol ag Oedolyn G i'w atal rhag ymosod ar aelodau'r staff. Doedd dim tystiolaeth bod hyn wedi'i gofnodi ar system adrodd DATIX y Bwrdd Iechyd.

### **Pwyntiau dysgu:**

Mewn amgylchedd lle mae nifer fawr o ddigwyddiadau rhwng oedolion agored i niwed, mae yna risg y bydd diwylliant o oddefgarwch proffesiynol yn datblygu. Gall hyn arwain at staff yn pennu trothwy uchel ar gyfer ymddygiad heriol a diffyg o ran adrodd a chofnodi digwyddiadau difrifol.

Yn dilyn y digwyddiad difrifol yma, mae Carfan Diogelu'r Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ac wedi hwyluso dysgu gyda wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn mewn perthynas ag adrodd a chofnodi digwyddiadau y byddai modd eu hystyried yn achosion o gam-drin neu esgeulustod.

Yn seiliedig ar drafodaethau yn yr achlysur dysgu, mae yna ddryswch o hyd ymysg gweithwyr proffesiynol ynghylch pryd y dylen nhw adrodd digwyddiadau i'r Garfan Diogelu a/neu'r Heddlu.

### **Thema Pedwar:**

#### **Rôl y Garfan Aml-ddisgyblaeth**

Mae gofal Iechyd Meddwl wedi'i seilio ar dystiolaeth yn cynnwys ystod eang o ddulliau ac ymyriadau a gaiff eu darparu gan weithwyr proffesiynol ledled meysydd Iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n bwysig bod modd cael mynediad amserol at asesiadau ac ymyriadau proffesiynol ar sail anghenion a risgiau unigolyn yn sgil eu hasesu.

Yn yr achlysur dysgu, cafodd y rheiny a oedd yn bresennol drafodaeth am yr hyn yr oedd yn fodel gofal meddygol cryf ar Wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn yn eu barn nhw. Yn ôl y trafodaethau, roedd gyda phob ward Seiciatrydd Ymgynghorol pwrpasol. Roedd sôn bod trosglwyddo cleifion rhwng wardiau yn aml yn heriol oherwydd rolau a chyfrifoldebau'r Seiciatryddion Ymgynghorol. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei sefyllfa ac erbyn hyn dydy rolau a chyfrifoldebau'r Ymgynghorydd ddim wedi'u cyfyngu i wardiau unigol a chaiff cleifion eu trosglwyddo ar sail angen ar y pryd.

Er ei bod yn gadarnhaol nodi'r broses lunio seicolegol yr oedd Oedolyn G yn destun iddi pan yr oedd yn ei leoliad, roedd trafodaeth yn yr achlysur dysgu a nododd bod mynediad at therapïau gan gynnwys Therapyddion Galwedigaethol a Seicolegwyr ar wardiau lechyd Meddwl i Bobl Hŷn yn gyfyngedig. Roedd ymweliadau â'r ward ac adolygiadau clinigol yn aml yn cael eu harwain gan staff meddygol a nyrsio a bydden nhw'n elwa ar fwy o gyfranogiad gan staff therapi i adlewyrchu'r safbwyntiau ac ymyriadau proffesiynol gwahanol gofynnol.

### **Pwyntiau dysgu:**

Dylai ystod eang o ymyriadau ar sail tystiolaeth fod ar gael i bob claf ar wardiau lechyd Meddwl i Bobl Hŷn. Yn ogystal â'r buddion unigol y byddai hyn yn eu darparu, byddai hefyd yn sicrhau dull cytbwys o leihau arferion a allai cyfyngu ar y cymorth a gaiff ei ddarparu ymysg gweithwyr proffesiynol.

## **Gwella Systemau ac Arfer**

### **Argymhellion:**

**Argymhelliad 1** – Rhaid i ymarferwyr sicrhau eu bod yn defnyddio'r ddeddfwriaeth fwyaf priodol a chywir mewn perthynas ag anghenion a risgiau unigol ar yr adeg honno.



**Argymhelliad 2** – Rhaid i asiantaethau partner sicrhau bod staff yn gwbl effro i'r rolau a'r cyfrifoldebau lle caiff unigolyn asesiad o ddiffyg gallu, gan gyfeirio'n benodol at fynediad amserol at Wasanaeth Eirioli ac atgyfeiriadau i'r Llys Gwarchod.

**Argymhelliad 3** – Rhaid i asiantaethau partner fod yn effro i sut mae Adolygiadau Cynllun Gofal a Thriniaeth (Mesur lechyd Meddwl 2010) yn rhoi cyfle i adolygu anghenion llety unigolion. Dylai ymarferwyr fod yn adolygu priodoldeb yr amgylchedd gofal presennol ac yn y dyfodol yn fater o drefn.

**Argymhelliad 4** – Rhaid i'r Bwrdd Diogelu ystyried sut mae'n cefnogi ymarferwyr i ddeall pryd y dylen nhw adrodd achosion i'r Garfan Diogelu a phryd y dylen nhw eu hadrodd i'r Heddlu.

**Argymhelliad 5** – Rhaid i'r Bwrdd lechyd adolygu'r mynediad at Therapïau Galwedigaethol a Seicolegol ar wardiau lechyd Meddwl i Bobl Hŷn.

## Datganiad gan yr Adolygwyr

<b>ADOLYGYDD 1</b>	Alex Beckham	<b>ADOLYGYDD 2</b>	Mark Abraham
<b>Datganiad annibyniaeth o'r achos</b> <i>Datganiad cymhwysedd Sicrwydd Ansawdd</i>		<b>Datganiad annibyniaeth o'r achos</b> <i>Datganiad cymhwysedd Sicrwydd Ansawdd</i>	
<p>Gwnaf y datganiad canlynol:-</p> <p>Cyn cymryd rhan yn yr adolygiad dysgu yma:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Doeddwn i ddim wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn neu'r teulu, na wedi rhoi cyngor proffesiynol ynghylch yr achos.</li> <li>▪ Doeddwn i ddim wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferwr/ymarferwyr dan sylw.</li> <li>▪ Mae'r cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth, a'r profiad priodol gyda fi ac rwyf wedi cael yr hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad</li> <li>▪ Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a gafodd eu nodi yn y Cylch Gorchwyl.</li> </ul>		<p>Gwnaf y datganiad canlynol:-</p> <p>Cyn cymryd rhan yn yr adolygiad dysgu yma:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Doeddwn i ddim wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn neu'r teulu, na wedi rhoi cyngor proffesiynol ynghylch yr achos.</li> <li>▪ Doeddwn i ddim wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferwr/ymarferwyr dan sylw.</li> <li>▪ Mae'r cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth, a'r profiad priodol gyda fi ac rwyf wedi cael yr hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad</li> <li>▪ Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a gafodd eu nodi yn y Cylch Gorchwyl.</li> </ul>	
<p><b>Adolygydd 1</b> (Llofnod)</p> 	<p><b>Adolygydd 2</b> (Llofnod)</p> 		
<p><b>Enw</b> (Llythrennau bras)</p> <p style="text-align: center;">Alex Beckham</p>	<p><b>Enw</b> (Llythrennau bras)</p> <p style="text-align: center;">Mark Abraham</p>		




Dyddiad:  
26/10/2020

Dyddiad

26/10/2020

Cadeirydd y Panel Adolygu  
(Llofnod)



Enw  
(Llythrennau bras)

Nikki Kingham

Dyddiad

26/10/2020

**Atodiad 1:** Cylch Gorchwyl

**Atodiad 2:** Amserlen Gryno

## Y Broses Adolygu Arfer Oedolion

Cafodd amgylchiadau'r achos yma eu hystyried gan Grŵp Adolygu Arfer Oedolion Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg ym mis Mai 2019 a chafodd ei gytuno ei fod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Arfer Oedolion Estynedig.

Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn unol â chanllawiau "Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 3", Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cafodd Panel ei ffurfio, gyda'r gwasanaethau/asiantaethau canlynol yn rhan ohono:

- Gwasanaethau i Oedolion RhCT
- Heddlu De Cymru
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
- Carfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Cafodd achlysur dysgu ei gynnal ar 7 Tachwedd 2019. Roedd y gwasanaethau/asiantaethau canlynol yn rhan o'r achlysur:

- Gwasanaethau i Oedolion RhCT
- Heddlu De Cymru

- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Cafodd llythyr ei anfon at deuluoedd Oedolyn F ac Oedolyn G i amlinellu comisiynu a chynnal yr Adolygiad Arfer Oedolion. Cawson nhw wahoddiad i gysylltu â'r adolygwyr pe bydden nhw'n dymuno cymryd rhan, ond doedd dim ymateb gan y naill deulu na'r llall.

Gwrthododd y teulu gymryd rhan

### At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad derbyn yr wybodaeth .....

Dyddiad anfon llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Oedolion  
.....

Dyddiad rhannu ag arolygiaethau perthnasol / Arweinwyr Polisi .....

Asiantaethau	Ie	Na	Rheswm
AGGCC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
AGIC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygydd Heddlu ei Mawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygydd Gwasanaeth Prawf ei Mawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

